

DEALL AC YMATEB I DRAWMA HILIOI

Beth yw trawma hiliol?


“ Mae trawma hiliol wedi'i ddiffinio yn... Effaith drawmatig gronnus hiliaeth ar unigolyn y gellir ei hachosi gan weithredoedd unigol yn ogystal â hiliaeth strwythurol ar y lefelau diwylliannol a chymunedol a hiliaeth o gyd-destunau hanesyddol. ”
- Williams et al, 2021



Cysylltiad â straen ar sail hil

- Mae straen ar sail hil yn digwydd trwy achosion uniongyrchol neu anuniongyrchol o hiliaeth a gall arwain at ganlyniadau iechyd meddwl gan gynnwys iselder, pryder, a rhagolwg negyddol ar fywyd. - Hargons et al. 2022, Thomas 2021
- Gellid ystyried trawma hiliol yn ganlyniad i Groniad o straen ar sail hil, ond nid yw pob straen ar sail hil yn arwain at drawma hiliol os darperir y gefnogaeth briodol ac yr ymgysylltir ag ef i hwyluso strategaethau ymdopi ac iachau. - Hargons et al, 2022

Cyd-destunoli trawma hiliol



Mae hiliaeth yn ffurf arwahaniaethu a gormes, sy'n digwydd ar dair lefel; y personol, y diwylliannol, a'r strwythurol (a elwir fel arall yn ddull PCS) - Thompson, 2006

- Mae'r lefel personol yn cyfeirio at farn a normau unigol y mae'r lefel ddiwylliannol yn effeithio arny'n nhw.
- Y lefel ddiwylliannol yw lle mae gwerthoedd a rennir a normau cymdeithas wedi'u gwreiddio a'u derbyn yn gyffredinol.
- Y lefel strwythurol yw lle mae normau, gwerthoedd, iaith ac ymddygiad yn cael eu 'gwnio i wead cymdeithas.'

Mae'r dull PCS yn cynnig cyd-destun defnyddiol o ran pam na fydd unigolion efallai'n ymgysylltu â gwasanaethau penodol neu efallai nad ydyn nhw'n ymddiried yn y gwasanaethau neu'r sefydliadau. Gall unigolion hefyd ofni cysylltiad ag achosion pellach o drawma hiliol trwy arferion a diwyllianau hiliol. - Thomas, 2021

Cefnogi unigolion sydd â thrawma hiliol a straen ar sail hil




- Mae pobl yn profi straen a thrawma hiliol mewn gwahanol ffyrdd, ac mae rhai o'r rhain oherwydd bod gan bob un ohonom hunaniaethau lluosog a heriau a realiti sy'n gysylltiedig â'n holl hunaniaethau. - Thomas, 2021, Hargons et al, 2022

Er mwyn cefnogi unigolion sydd â thrawma hiliol a straen ar sail hil mae'n rhaid i ymarferwyr;

- Wybod sut mae rhyw, ethnigrwydd, a hunaniaethau eraill megis crefydd, rhywioldeb a dosbarth yn croestorri i allu creu ymagweddau unigol i gefnogi eu hanghenion.
- Bod yn ddiwylliannol gymwys ac yn gallu trafod hil, diwylliant, a hiliaeth, a thrawma grŵp hanesyddol gan fod y profiadau hyn yn ganolog i hunaniaeth unigolion.

Defnyddio'r iaith gywir a meithrin cymhwysedd diwylliannol



- Mae iaith a therminoleg yn hanfodol i gefnogi unigolion o leiafrifoedd ethnig a sut mae defnyddio'r term 'BAME' i lawer yn sarhaus ac nid yw'n gynrychioliadol o'r amrywiaeth eang o hunaniaethau ethnig. - Thomas, 2021
- Mae 'lleiafrif hiliol ac ethnig' wedi'i awgrymu ar gyfer arfer gorau. Mae hwn yn derm nad yw'n hierarchaidd, nad yw'n hunaniaeth ac sy'n dilysu hunaniaethau amlhiliol/amlethnig. Mae hefyd yn cydnabod y broses a ddefnyddir i wneud pobl yn lleiafrif yn beth cymdeithasol yn hytrach na naturiol neu gynhenid. - Thomas, 2021
- Mae arfer sy'n ddiwylliannol gymwys yn nodweddiadol o wrando gweithredol, hwyluso a chefnogi sgysiau sy'n ymwneud â phrofiadau unigolion o ddiwylliant, ethnigrwydd, hiliaeth a thrawma hiliol. - Imkaan, 2016, Thomas, 2021

Pedair egwyddor allweddol i'w ddilyn ar gyfer ymarfer da



I sicrhau cymorth i'r rhai sydd â thrawma hiliol a chreu system nad yw'n hiliol ac sy'n achosi trawma pellach. - Thomas, 2021

- Cydnabod trawma hiliol fel bod pobl sy'n ymwneud â gwasanaethau yn teimlo eu bod wedi'u dilysu ac yn gallu trafod eu profiadau
- Normaleiddio sgysiau ar hil, hiliaeth, a thrawma hiliol er mwyn sicrhau arfer da
- Datblygu gwasanaethau cymorth priodol sy'n ddiwylliannol unigryw, yn ddiogel, ac sy'n cynnig dulliau unigol o wella ac adsefydlu
- Herio hiliaeth sefydliadol

Dull sy'n ystyriol o Drawma



Mae'r System Cyfiawnder Troseddol yn gweithio gydag Iechyd Cyhoeddus Cymru i ymchwilio a datblygu polisi ac ymarfer sy'n ymwneud â thrawma hiliol.

Dylai dulliau sy'n ystyriol o drawma greu amgylcheddau iachad i'r rhai sydd wedi profi trawma hiliol.

Dylai cymorth fod yn groestoriadol ac wedi ei deilwra ar gyfer unigolion ar sail eu;

- Profiadau:
- Hunaniaethau
- Ffiniau
- Disgwyliadau
- Anghenion

